**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**ADRAN 23 DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

# CROESFAN ARFAETHEDIG I GERDDWYR AR CLAYTON ROAD, YR WYDDGRUG

**RHODDIR RHYBUDD** drwy hyn fod Cyngor Sir y Fflint, drwy arfer ei bwerau dan Adran 23 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig;

a) Gosod Croesfan Cerddwyr Sebra yn y lleoliad fel y disgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

**Rheswm dros y Cynnig:** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi Clayton Road, Yr Wyddgrug fel lleoliad addas i osod cyfleuster croesfan sebra. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i osod croesfan a fydd yn helpu i sicrhau siwrneiau cynaliadwy i'r ysgol. Bydd y groesfan yn helpu i leddfu pryderon diogelwch mewn perthynas â mynediad uniongyrchol i'r ysgol yn ogystal â sicrhau buddion i'r gymuned ehangach.

Bydd y gwaharddiadau arferol yn erbyn cerbydau yn stopio, aros, llwytho a dadlwytho ar y gerbydffordd o fewn yr ardaloedd â llinellau igam ogam ar naill ochr y groesfan yn berthnasol.

Mae'n bosibl gweld copi o'r Hysbysiad hwn a chynlluniau sy'n dangos y ffyrdd a effeithir gan y cynigion, yn ystod oriau agor arferol yn Sir y Fflint yn Cysylltu yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell yr Wyddgrug, Earl Road Yr Wyddgrug CH7 1AP, yn ystod oriau agor neu fe allwch eu gweld ar ein gwefan www.siryffint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r cynnig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn neu e-bost i transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk erbyn dydd Gwener 16 Chwefror 2024 gan ddyfynnu cyfeirif SS/TRO/JB/CR/Zebra

## ATODLEN

### Gosod Croesfan Sebra Newydd i Gerddwyr

**Clayton Road, Yr Wyddgrug –** ger y gyffordd gyda Queens Park.

Dyddiedig y 26 Ionawr 2024

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR




**Katie Wilby**

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

**Streetscene**

BASED UPON VARIOUS ORDNANCE SURVEY MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HM STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED LICENSE NUMBER LA 100023386L FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, MOLD.

*DRAWN BY:* *KJ*

*CHECKED BY:* *CP*

*SCALES:* *NTS*

*NAT. GRID REF:* *323099* *363926*

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| AMENDMENTS: | DATE |
| --- | --- |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Proposed Zebra crossing
Clayton Road, Mold

(Sheet 1 of 1)

*DRAWING NUMBER*

HT/11/0000 | 101 | C1